OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

# 2005 Rhif 257 (Cy.23)

# BWYD, CYMRU

## Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005

| | | |
|---|---|---|
| *Wedi'u gwneud* | - - | *8 Chwefror 2005* |
| *Yn dod i rym* | - - | *10 Chwefror 2005* |

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, gan ei fod wedi'i ddynodi(**1**) at ddibenion adran 2(2) o Ddeddf y Cymunedau Ewropeaidd 1972(**2**) mewn perthynas â mesurau sy'n ymwneud â bwyd (gan gynnwys diod), gan gynnwys cynhyrchu bwydydd crai, drwy arfer y pwerau a roddwyd gan yr adran honno, yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn:

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) (Diwygio) 2005 a deuant i rym ar 10 Chwefror 2005.

### Diwygio Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2003

**2.**—(1) Mae Rheoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2003(**3**) wedi'u diwygio yn unol â pharagraffau (2) i (5).

(2) Ym mharagraff (1) o reoliad 2 (dehongli) —

(a) yn lle'r diffiniad o "Penderfyniad y Comisiwn" rhoddir y diffiniad canlynol —

ystyr "Penderfyniad y Comisiwn" ("*the Commission Decision*") yw Penderfyniad y Comisiwn 2005/85/EC sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio cnau pistasio a chynhyrchion penodol sy'n deillio o gnau pistasio sy'n tarddu o Iran, neu sydd wedi'u traddodi oddi yno(**4**);"; a

(b) yn lle'r diffiniad o "Cyfarwyddeb 98/53/EC" rhoddir y diffiniad canlynol —

"ystyr "Cyfarwyddeb 98/53/EC" ("*Directive 98/53/EC*") yw Cyfarwyddeb y Comisiwn 98/53/EC sy'n pennu'r dulliau samplu a'r dulliau dadansoddi ar gyfer rheolaeth swyddogol ar lefelau halogion penodol mewn bwydydd(**5**), fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Gyfarwyddeb y Comisiwn 2004/43/EC(**6**);";

(**1**) O.S. 2003/2901.
(**2**) 1972 p.68.
(**3**) O.S. 2003/2288 (Cy.227), a ddiwygiwyd gan O.S. 2004/245 (Cy.24) ac O.S. 2004/1804 (Cy.192).
(**4**) OJ Rhif L30, 3.2.2005, t.12.
(**5**) OJ Rhif L201, 17.7.98, t.93.

(3) Yn lle paragraff (1) o reoliad 3 (gwahardd mewnforio), rhoddir y paragraff canlynol —

"(1) Yn ddarostyngedig i baragraff (3), ni chaiff neb fewnforio i Gymru unrhyw gnau pistasio Iranaidd oni bai —

(a) bod yr amodau a bennir yn Erthygl 1.1, 3, 5 ac (i'r graddau y mae'n yn gymwys yn y man mewnforio) 7 o Benderfyniad y Comisiwn wedi'u bodloni mewn perthynas â'r cnau pistasio hynny; a

(b) bod y costau, sy'n deillio o'r samplu, y dadansoddi a'r storio ac o ddyroddi'r dogfennau swyddogol sy'n mynd gyda'r cnau pistasio hynny a chopïau o dystysgrifau iechyd a'r dogfennau sy'n mynd gyda'r tystysgrifau hynny yn unol ag Erthygl 1.4 i 7 o Benderfyniad y Comisiwn, wedi'u talu.".

(4) Yn lle paragraff (4) o reoliad 4 (gorfodi), rhoddir y paragraff canlynol —

"(4) Y gofynion yw'r gofynion a bennir yn —

(a) Erthygl 1.4 o Benderfyniad y Comisiwn (sy'n ymwneud â gwirio'r dogfennau sy'n berthnasol i lwythi o gnau pistasio Iranaidd);

(b) Erthygl 1.5 ac 1.6 o'r Penderfyniad hwnnw (sy'n ymwneud â samplu a dadansoddi'r llwythi hynny), ac eithrio'r gofyniad o dan Erthygl 1.5 i roi gwybodaeth benodedig i'r Comisiwn; ac

(c) Erthygl 1.7 o'r Penderfyniad hwnnw (sy'n ymwneud ag achosion o hollti llwythi).".

(5) Yn lle rheoliad 6 (ailanfon neu ddinistrio mewnforion anghyfreithlon), rhoddir y rheoliad canlynol —

"**6.**—(1) Wedi arolygu neu archwilio unrhyw gnau pistasio Iranaidd, os yw'n ymddangos i swyddog awdurdodedig awdurdod iechyd porthladd neu, yn ôl y digwydd, awdurdod bwyd, eu bod wedi'u mewnforio yn groes i baragraff (1) neu (2) o reoliad 3, wedi iddo ymgynghori'n briodol â pherson y mae'n ymddangos iddo mai ef yw mewnforiwr y cnau pistasio, caiff gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad sy'n gorchymyn —

(a) ailanfon y cnau pistasio y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd o fewn y cyfnod rhesymol a bennir yn yr hysbysiad os yw'r holl gostau, sy'n gysylltiedig â'r mesurau swyddogol a gymerwyd mewn perthynas â'r cnau pistasio hynny ac sydd wedi'u nodi yn yr hysbysiad hwnnw, wedi'u talu; neu

(b) os —

(i) byddai'r ailanfon hwnnw yn ei farn ef yn creu peryglon difrifol i iechyd pobl, neu

(ii) nad yw'r costau hynny wedi'u talu,

dinistrio'r cnau pistasio o fewn y cyfnod rhesymol a bennir yn yr hysbysiad.

(2) Os yw hysbysiad wedi'i gyflwyno o dan is-baragraff (a) o baragraff (1) ac nad yw'r cnau pistasio o dan sylw wedi'u hailanfon y tu allan i'r Gymuned Ewropeaidd o fewn y cyfnod a bennir yn yr hysbysiad, caiff swyddog awdurdodedig yr awdurdod iechyd porthladd neu'r awdurdod bwyd y cyflwynwyd yr hysbysiad gan ei swyddog awdurdodedig ef, ar ôl ymgynghori'n briodol â'r person y mae'n ymddangos iddo mai ef yw mewnforiwr y cnau pistasio, gyflwyno i'r person hwnnw hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol iddo ddinistrio'r cnau pistasio o fewn y cyfnod rhesymol a bennir yn yr hysbysiad.

(3) Mae hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (1) neu (2) i nodi:

(a) hawl i apelio i lys ynadon; a

(**6**) OJ Rhif L113, 20.4.2004, t.14.

(b) y cyfnod erbyn pryd y caniateir dwyn yr apêl.

(4) Caiff unrhyw berson a dramgwyddir gan benderfyniad swyddog awdurdodedig i gyflwyno hysbysiad o dan baragraff (1) neu (2) apelio i lys ynadon, a fydd yn penderfynu a ddylid cadarnhau neu ddiddymu'r hysbysiad.

(5) Chwe diwrnod o'r dyddiad y cyflwynwyd yr hysbysiad ac eithrio Sadyrnau, Suliau a gwyliau cyhoeddus yw'r cyfnod erbyn pryd y caniateir dwyn yr apêl a grybwyllwyd ym mharagraff (4) ac, at ddibenion y paragraff hwn, bernir bod gwneud yr achwyniad yn gyfystyr â dwyn yr apêl.

(6) Pan wneir apêl i lys ynadon o dan baragraff (4), mae'r weithdrefn i fod ar ffurf achwyniad er mwyn cael gorchymyn, a bydd Deddf Llysoedd Ynadon 1980(**7**) yn gymwys i'r achos.

(7) Os bydd y llys yn caniatáu apêl a ddygir o dan baragraff (4), rhaid i'r awdurdod o dan sylw dalu iawndal i berchennog y cnau pistasio Iranaidd o dan sylw am unrhyw ddibrisiant yn eu gwerth sy'n deillio o'r camau a gymerir gan y swyddog awdurdodedig.

(8) Penderfynir unrhyw gwestiwn y mae dadl yn ei gylch o dan baragraff (7), o ran yr hawl i gael iawndal neu swm unrhyw iawndal sy'n daladwy, drwy gymrodeddu.

(9) Bydd unrhyw berson sy'n torri amodau hysbysiad a gyflwynir o dan baragraff (1) neu (2) yn euog o dramgwydd ac yn agored, o'i gollfarnu'n ddiannod, i ddirwy heb fod yn fwy na lefel 5 ar y raddfa safonol neu i garchar am gyfnod heb fod yn fwy na thri mis.”.

Llofnodwyd ar ran Cynulliad Cenedlaethol Cymru o dan adran 66(1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 1998(**8**). 8 Chwefror 2005

*D. Elis-Thomas*
Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol

(**7**) 1980 p.43.
(**8**) 1998 p.38.

## EXPLANATORY NOTE

*(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)*

**1.** Mae'r Rheoliadau hyn yn diwygio ymhellach Reoliadau Bwyd (Cnau Pistasio o Iran) (Rheolaeth Frys) (Cymru) (Rhif 2) 2003 (O.S. 2003/2288 fel y'i diwygiwyd gan O.S. 2004/245 ac O.S. 2004/1804). Rhoddodd y Rheoliadau hynny ar waith Benderfyniad y Comisiwn 97/830/EC sy'n diddymu Penderfyniad y Comisiwn 97/613/EC ac sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio cnau pistasio a chynhyrchion penodol sy'n deillio o gnau pistasio sy'n tarddu o Iran, neu sydd wedi'u traddodi oddi yno (OJ Rhif L343, 13.12.97, t.30) fel y'i diwygiwyd ddiwethaf gan Benderfyniad y Comisiwn 2004/429/EC (OJ Rhif L154, 30.04.2004 t.20). Mae'r diwygiadau sy'n cael eu gwneud gan y Rheoliadau hyn yn rhoi ar waith Benderfyniad y Comisiwn 2005/85/EC, a elwir "y Penderfyniad newydd", sy'n gosod amodau arbennig ar fewnforio cnau pistasio a chynhyrchion penodol sy'n deillio o gnau pistasio sy'n tarddu o Iran, neu sydd wedi'u traddodi oddi yno (OJ Rhif L30, 3.2.2005, t.12). Diddymodd y Penderfyniad newydd Benderfyniad y Comisiwn 97/830/EC.

**2.** Y gwahaniaethau pwysig rhwng y Penderfyniad newydd a Phenderfyniad y Comisiwn 97/830/EC yw —

(a) bod Erthygl 1.1 o'r Penderfyniad newydd yn darparu bod y dystysgrif iechyd y mae'n ofynnol iddi fynd gyda llwyth o "cnau pistasio Iranaidd" (fel y'u diffinnir yn rheoliad 2(1) o O.S. 2003/2288) i fod yn ddilys ar gyfer mewnforio a wnaed heb fod yn hwy na 4 mis ar ôl dyddiad dyroddi'r dystysgrif iechyd; a

(b) bod Erthygl 3 o'r Penderfyniad newydd yn darparu bod costau penodol, sy'n ymwneud â'r rheolaethau mewnforio ar gnau pistasio Iranaidd a osodir gan y Penderfyniad a'r costau ynglyn â mesurau swyddogol a gymerir yn erbyn llwythi o gnau pistasio Iranaidd nad ydynt yn cydymffurfio â'r Penderfyniad, i'w talu gan y person sy'n gyfrifol am y llwyth.

**3.** Mae'r newid a ddisgrifiwyd ym mharagraff 2(a) uchod wedi'i gyflawni drwy roi diffiniad o'r Penderfyniad newydd yn lle'r diffiniad o Benderfyniad y Comisiwn 97/830/EC yn rheoliad 2(1) o O.S. 2003/2288 a gwneud newidiadau canlyniadol i reoliadau 3(1) a 4(4) o'r offeryn hwnnw (rheoliad 2(2)(a), (3) a (4)).

**4.** Mae'r newid a ddisgrifiwyd ym mharagraff 2(b) uchod wedi'i gyflawni drwy ddiwygio rheoliadau 3(1) a 6(1) o O.S. 2003/2288 i'w gwneud yn amod ar gyfer mewnforio bod y costau sy'n ymwneud â rheolaethau mewnforio wedi'u talu ac yn amod ar gyfer ailanfon llwythi nad ydynt yn cydymffurfio â'r rheoliadau bod y costau sy'n ymwneud â mesurau swyddogol a gymerwyd yn eu herbyn wedi'u talu (rheoliad 2(3) a (5)).

**5.** Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod diffiniad diwygiedig o Gyfarwyddeb y Comisiwn 98/53/EC yn rheoliad 2(1) o O.S. 2003/2288 i adlewyrchu'r diwygiadau a wnaed i'r Gyfarwyddeb honno (rheoliad 2(2)(b)).

**6.** Mae'r Rheoliadau hyn yn mewnosod paragraff (2) newydd yn rheoliad 6 o O.S. 2003/2288, sy'n darparu y caniateir dinistrio mewnforion anghyfreithlon o gnau pistasio Iranaidd os na chânt eu hailanfon o fewn y cyfnod a bennir mewn hysbysiad sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt gael eu hailanfon (rheoliad 2(5)).

**7.** Nid oes arfarniad rheoliadol wedi'i baratoi ynglŷn â'r Rheoliadau hyn